

Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin
a gynhaliwyd yng Nghanolfan Hamdden Castellnewydd Emlyn
am 6pm ddydd Iau 25ain Ebrill 2013

Yn bresennol:

Jonathan Tudor (JT) - Yr Ysgrifennydd

Yr Aelodau:

Karen Burch (KB) – Y Cadeirydd

Mark Hadley (MH) – Yr Is-gadeirydd

Keith Morgan (KM)

Eric Davies (ED)

Glyn Evans (GE)

Don Lazenby (DL)

Chris Rankin (CR)

Llew Thomas (LT)

Ymgynghorwyr/Sylwedyddion/Siaradwyr/Y Cyhoedd

Y Sarsiant Steve Glynn – Heddlu Dyfed-Powys

Ymddiheuriadau (Yr Aelodau):

Caroline Evans (CE)

Rosemary Jones (RJ)

Eric Jones (EJ)

Katherine Nakielny (KN)

Ymddiheuriadau (Yr Ymgynghorwyr)

Phil Stone (Cyfoeth Naturiol Cymru)

Mike Scott-Archer (Fforwm Mynediad Lleol

Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog)

Marie George (CNC)

Stella Jones (Cyngor Tref Castellnewydd Emlyn)

Y Cynghorydd Hazel Evans

	GWEITHREDU GAN
Eitem 1 Croeso – Estynnodd KB groeso i bawb i'r cyfarfod.	
<p>Eitem 2 Rheolaeth ar Gŵn – Cyflwyniad gan y Sarsiant Steve Glynn, Heddlu Dyfed-Powys</p> <p>Manylodd y Sarsiant Steve Glynn ar y ddeddfwriaeth berthnasol gan gynnwys Deddf Cŵn Peryglus 1991 ('y Ddeddf'). Yn ôl Adran 3 o'r Ddeddf yr oedd y perchennog neu'r sawl oedd yn rheoli'r ci yn euog o drosedd os oedd y ci heb fod o dan reolaeth ac yn beryglus mewn man cyhoeddus. Os oedd y ci'n anafu unrhyw un pan nad oedd rheolaeth arno, yr oedd hynny'n 'drosedd waethygedig'. Y prawf ynghylch a oedd ci o dan reolaeth ai peidio oedd a oedd sail resymol dros boeni y gallai anafu rhywun. Gofynnodd CR beth fyddai'r sefyllfa petai ci yn brathu ceffyl. Gallai llys benderfynu bod hynny'n profi bod ci heb fod o dan reolaeth ac yn beryglus, a bod trosedd wedi ei chyflawni. Petai'r ci'n brathu'r marchog, byddai hynny'n debygol o olygu bod trosedd waethygedig wedi ei chyflawni. Dywedodd KM fod problemau'n digwydd pan fo pobl oedd yn mynd â'u cŵn am dro yn cyfarfod â phobl eraill oedd yn mynd â'u cŵn am dro. Dywedodd y Sarsiant Glynn fod cŵn yn ymateb yn reddfol yn y sefyllfaoedd hynny, a bod eu hymateb yn dibynnu ar y modd yr oeddynt wedi eu hyfforddi.</p> <p>Gofynnodd KB a fyddai trosedd wedi ei chyflawni petai ci'n rhedeg o amgylch ceffyl ac yn cyfarth. Atebodd drwy ddweud y gallai trosedd fod wedi ei chyflawni ond bod hynny'n dibynnu ar yr amgylchiadau – os oedd y marchog yn poeni y gallai'r ci</p>	

<p>yмосod ar y ceffyl neu ar y marchog petai'n dod oddi ar y ceffyl.</p> <p>Y broblem gyffredinol wrth ymdrin â digwyddiadau o'r fath oedd adnabod y ci a'r perchennog yn ddiweddarach. Hefyd gallai fod problemau o ran tystiolaeth oni bai fod tystion annibynnol neu dystiolaeth ffotograffig/ffilm ar gael. Fel arall gair y naill yn erbyn y llall fyddai hi oni bai fod tystiolaeth gorfforol o ymosodiad.</p> <p>Gallai unigolyn gael dirwy o hyd at £5,000 a/neu gael carchar am hyd at 6 mis pe byddid yn penderfynu bod ci'r unigolyn heb fod o dan reolaeth ac yn beryglus mewn man cyhoeddus. Petai ci yn niweidio rhywun gallai'r perchennog gael ei garcharu am hyd at 2 flynedd.</p> <p>Gofynnodd KB pwy oedd yn atebol petai rhywun arall heblaw'r perchennog yn mynd â'r ci am dro. Dywedodd y Sarsiant Glynn taw'r unigolyn oedd yn gyfrifol am y ci ar y pryd, os oedd yr unigolyn dros 16 oed, fyddai'n atebol.</p> <p>Dywedodd fod Adran 1 o'r Ddeddf yn datgan ei bod yn anghyfreithlon i fod yn berchen ar 4 math penodol o gŵn, sef: Daeargi Pit Bull, Tosa Japaneaidd, Dogo Argentino a Fila Braziliero. Petai ci'n poeni da byw byddai gan ffermwr hawl i'w saethu.</p> <p>Dywedodd JT fod Michael Roberts, Swyddog Amgylcheddol Rhanbarthol, Gwasanaethau Stryd CSC, wedi dweud y byddid yn cynnal ymgynghoriad ynghylch cyflwyno gwaharddiad tymhorol ar gŵn/cadw cŵn ar dennyn (mewn ardaloedd penodol) ac ynghylch codi baw eich ci mewn mannau allweddol megis traethau yn y sir.</p>	
<p>Eitem 3 Ymddiheuriadau - Cyflwynwyd ymddiheuriadau ac fe'u cofnodwyd.</p>	
<p>Eitem 4 Ystyried a Chymeradwyo Cofnodion y Cyfarfod oedd wedi ei gynnal ar 18fed Hydref 2012</p> <p>Archwiliwyd y cofnodion. Cyfeiriodd JT at rai mân gamgymeriadau, a derbyniwyd bod y cofnodion, fel y'u newidiwyd, yn gywir.</p>	
<p>Eitem 5 Materion yn Codi o Gofnodion y Cyfarfod oedd wedi ei gynnal ar 18fed Hydref 2012</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cilffordd Banc Farm (15/31 a 15/32), Llidiadnennog, Brechfa. Gofynnodd KB a oedd rhagor o waith wedi ei wneud. Eglurwyd bod gwaith wedi ei wneud ar ran o'r llwybr. Fodd bynnag, y brif broblem oedd bod defnyddwyr yn gadael y llwybr cyfreithiol ac yn achosi difrod yng nghanol y cae. Eglurwyd bod llwybr caniataol posibl ar hyd ymyl y cae yn cael ei drafod. • Llwybr Beicio Dyffryn Aman – Dywedodd KM fod trafodaethau'n dal i fynd rhagddynt gyda'r perchennogion tir ar rannau o'r llwybr yn awdurdod Castell-nedd Port Talbot. • Taith Farchogaeth y Ddraig – Dywedodd KB fod llwybr trwy'r sir dan sylw. • Adolygiad o'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy – Dywedodd KB y byddai Cyfarfod Cadeiryddion y Fforymau Mynediad Lleol yn cynnal adolygiad, ac y byddai Cyfoeth Naturiol Cymru yn dosbarthu holiadur i Gadeiryddion y Fforymau Mynediad Lleol ynghylch y mater. 	

<p>Eitem 6 Fferm Wynt Dwyrain Brechfa - KB</p> <p>Dywedodd KB fod yr ymgynghoriad ynghylch y fersiwn drafft o'r Cynllun Mynediad wedi cau, ond bod modd cyflwyno sylwadau o hyd. Byddai'r llwybr beicio yn cael ei gau yn ystod y gwaith adeiladu ond byddai llwybr arall yn cael ei ddarparu. Dywedodd MH y byddai'r llwybr beicio mynydd yn cael ei gau yn ystod y gwaith adeiladu, a oedd yn drueni mawr gan taw dim ond yn ddiweddar yr oedd y llwybr wedi ei agor. Byddai cau'r llwybr yn effeithio mewn modd andwyol ar dwristiaeth yn yr ardal. Byddai llwybr ceffylau 15/33 yn cael ei ymestyn a'r wyneb yn cael ei wella, ond dywedodd KB fod yr estyniad ar ffyrdd yn y goedwig yr oedd yn well gan farchogion beidio â'u defnyddio. Hefyd yr oedd caban llochesu'n cael ei godi. Yr oedd Marchogion Sir Gaerfyrddin wedi awgrymu llwybr arall. Gofynnodd KB a oedd gan Gymdeithas y Cerddwyr unrhyw farn ynghylch yr argymhellion gan nad oedd y gymdeithas wedi ymateb yn ffurfiol. Gofynnodd MH a fyddai effaith negyddol ar gerddwyr. Dywedodd DL nad oedd y rhan fwyaf o gerddwyr, hyd y gwyddai ef, yn becco am dyrbinau gwynt.</p> <p>Dywedodd KB fod y Comisiwn Coedwigaeth (Cyfoeth Naturiol Cymru) wedi datgan bod Brechfa yn goedwig weithredol gan ychwanegu y byddai llystyfiant yn tyfu o amgylch y tyrbinau ac y byddai gwaith ailblannu'n cael ei wneud er mwyn i sylfeini'r tyrbinau beidio â bod yn y golwg. Dywedodd MH ei bod yn anochel y byddai'r datblygiad hwn yn effeithio ar dwristiaeth yn ystod y cyfnod adeiladu.</p>	
<p>Eitem 7 Glastir - Mynediad Caniataol - JT/KB</p> <p>Yr oedd JT wedi cael ar ddeall y byddai'r Fforwm Mynediad Lleol yn derbyn rhagor o wybodaeth gan Lywodraeth Cymru rywbryd ynghylch tir oedd yn rhan o gynlluniau Glastir a Glastir Uwch.</p> <p>Ar hyn o bryd yr oedd y Fforwm Mynediad Lleol wedi dweud ein bod am gadw'r mynediad caniataol presennol ac wedi clustnodi rhai ardaloedd, megis Gorllewin Caerfyrddin, lle byddai'n ddymunol cael llwybrau ychwanegol. Byddid yn gofyn yn flynyddol i'r Fforwm Mynediad Lleol gyflwyno'r llwybrau caniataol ychwanegol yr oeddid yn dymuno eu cael, a byddai Swyddogion Contract Glastir yn ceisio cyflawni hynny os oedd y perchennog tir yn rhan o Gynllun Glastir Uwch. Dywedodd ED y gallai llwybrau caniataol o'r fath fod yn ddefnyddiol o ran cysylltu hawliau tramwy cyhoeddus presennol â'i gilydd.</p>	
<p>Eitem 8 Mynediad Amldefnydd – Fersiwn drafft o Gôd Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog KB</p> <p>Yr oedd y fersiwn drafft o'r côd uchod wedi ei ddsbarthu i'r aelodau. Dywedodd KB ei bod hi wedi rhoi ei sylwadau eisoes. Barn MH oedd bod y côd wedi ei lunio o safbwynt cerddwyr, a chan fod y côd fel petai wedi ei anelu at newid ymddygiad rhai beicwyr yr oedd angen iddo fod ychydig yn fwy cytbwys. Yr oedd y lleill yn cytuno.</p>	
<p>Eitem 9 Adolygiad o Dir Mynediad Agored – Y Wybodaeth Ddiweddaraf JT</p> <p>Darllenodd JT neges e-bost oddi wrth Phil Stone, o Gyfoeth Naturiol Cymru, a oedd yn dweud taw prin oedd y sylwadau a ddaethai i law ynghylch Sir Gaerfyrddin ar gyfer y fersiwn drafft o'r map.</p> <p>Byddai cyfres o fapiau dros dro yn cael ei llunio ym mis Awst. Byddai unrhyw un oedd wedi cyflwyno sylwadau yn cael gwybod gan Gyfoeth Naturiol Cymru beth oedd ffrwyth y broses. Hefyd byddai Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymdrechu i ddod o hyd i'r perchennogion tir hynny a fyddai'n debygol o gael tir wedi ei ychwanegu at y mapiau oherwydd ei fod yn gynefin perthnasol. Ar ôl i'r mapiau gael eu llunio ym mis</p>	

<p>Awst, byddai gan y bobl hynny oedd â buddiant cyfreithiol mewn tir a ddangoswyd fel tir mynediad gyfle i apelio yn erbyn penderfyniad Cyfoeth Naturiol Cymru os oeddynt yn barnu bod amryfusedd o ran fel y dangoswyd y tir. Byddai'n rhaid i unrhyw apêl gael ei chyflwyno i'r Arolygiaeth Gynllunio a hynny erbyn 7^{fed} Tachwedd 2013.</p>	
<p>Eitem 10 - Unrhyw Fater Arall</p> <p>Llwybrau Bronwydd a Llannewydd – yr oedd angen clirio 3 o'r llwybrau oedd dan sylw yn y daflen hyrwyddo ar gyfer yr ardal. Yr oedd Clerc y Cyngor Cymuned wedi rhoi gwybod amdanynt eisoes. Byddai JT yn cadarnhau'r sefyllfa gyda'r Gwasanaeth Parcmyn Cefn Gwlad. Hefyd gofynnwyd cwestiwn ynghylch gosod meinciau newydd.</p> <p>Llwybrau Eraill â Mynediad i'r Cyhoedd - Dywedodd MH ei fod wedi cynnal chwiliadau drwy gyfrwng Gwasanaethau Stryd CSC i wirio a oedd amryfal lwybrau ar gofnodion priffyrdd/rhestr o strydoedd eisoes, ac yn cael eu cynnal yn gyhoeddus. Hyd yn hyn yr oedd y rhan fwyaf yn ymddangos ar y Rhestr o Strydoedd.</p> <p>Mynediad Lleiaf Rhwystrol – Gofynnodd KB gwestiwn am y llwybrau oedd â'r mynediad lleiaf rhwystrol yn Sir Gaerfyrddin. Dywedodd JT ei fod yn gwybod bod y Gwasanaeth Parcmyn yn ceisio agor neu wella o leiaf un llwybr o'r fath bob blwyddyn. Byddai JT yn cadarnhau pa lwybr a gawsai waith wedi ei wneud.</p>	<p>JT</p> <p>JT</p>
<p>Eitem 11 - Dyddiad/Lleoliad y Cyfarfod Nesaf</p> <p>Cytunwyd ar ddyddiadau'r cyfarfod nesaf a'r cyfarfodydd dilynol:</p> <p>6pm ddydd Iau 22^{ain} Awst 2013 – Canolfan Addysg Gymunedol Llandeilo 6pm ddydd Iau 21^{ain} Tachwedd 2013 – Canolfan Fowlio Rhydaman 6pm ddydd Iau 20^{fed} Chwefror 2014 – y lleoliad i'w gyhoeddi</p>	